**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU

# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 30 MEDI, 2013**

**11.00am, MONDAY, 30 SEPTEMBER, 2013**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 20/09/13*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Charles Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol / Independent Members (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned / Community Committee Member (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

5. **ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

   Croesawu Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol i’r cyfarfod i drafod eu rôl mewn cynnal safonau ymddygiad.

6. **HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

   Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

7. **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

   Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

8. **HYFFORDDIANT**

   Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU, 01.07.13

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Charles Wyn Jones ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Miss Margaret E.Jones a Mr Sam W.Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorydd Michael Sol Owen; Ms Linda Byrne a Dr Einir Young (Aelodau Annibynnol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2013 fel rhai cywir.

Er gwybodaeth i'r aelodau, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y Cyngor llawn ym mis Mai wedi mabwysiadu'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau a'i gynnwys yn rhan o'r Cyfansoddiad.
- Na dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, i'r llythyr yn datgan anfodlonrwydd y pwyllgor hwn bod ei lythyr ynglŷn â Fframwaith Moesegol Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn yn uniaith Saesneg. Anfonwyd llythyr yn mynegi'r un pryder at yr Ombwdsmon beth amser yn ôl a derbyniwyd ateb ganddo ym mis Chwefror yn cydnabod y ffaith y dylai fod wedi gohebu'n ddwyieithog ac yn ymddiheuro am y sefyllfa.

## 3. CAIS AM ODDEFEB GAN Y CYNGHORYDD MIKE STEVENS

Cyflwynwyd – cais am oddefeb gan y Cynghorydd Mike Stevens i gymryd rhan mewn trafodaeth, yn y Cyngor Tref, ynglŷn â Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn.

Eglurodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith:-

- Bod y Cyngor Tref yn rhoi grant yn flynyddol i'r Siambr, ond eleni 'roedd am drafod y mater ymhellach cyn gwneud penderfyniad oherwydd datblygiadau o fewn y Siambr yn ystod y flwyddyn aeth heibio.
- Bod y Cynghorydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd mai ef yw Cadeirydd y Siambr. 'Roedd yn awyddus i fynychu'r cyfarfod er mwyn darparu

gwybodaeth ac ateb cwestiynau'r Cyngor Tref ac 'roedd wedi gofyn am yr hawl i siarad a phleidleisio.

Cyflwynwyd gwybodaeth gefndir bellach a ddaeth i law gan yr aelod.

Eglurodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith ymhellach

- Bod gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa'n dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol.
- Bod y Cynghorydd wedi nodi ei fod yn gofyn am y goddefeb o dan baragraff (f), sy'n darparu -
  *"os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw."*
- Ei fod hefyd wedi nodi paragraff (d) – *"os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd."*
- Bod paragraff (dd) – *"os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod"* hefyd yn hynod berthnasol yn yr achos hwn.
- Bod canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad (Medi 2012) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau (tud.26) –
  *"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioliadol."*

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ar y cais, mynegwyd y farn y dylai'r Cynghorydd gael aros yn y cyfarfod i esbonio'r sefyllfa ac i ateb cwestiynau'r Cyngor Tref, ond na ddylai gael pleidlais gan fod ganddo fudd amlwg yn y mater.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, yng nghyfarfod y Cyngor Tref a'r Pwyllgor Cyllid fydd yn ei ragflaenu.**

**(b) Nodi mai sail y caniatâd yw paragraff (dd) yn y rheoliadau, sef arbenigedd yr aelod.**

**(c) Y dylai adroddiadau ar geisiadau am oddefiadau gynnwys mwy o wybodaeth o hyn allan.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2012/13

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2013.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, ond gan ddiwygio'r atodiad i gyfeirio at wir raglen waith y pwyllgor am y flwyddyn yn hytrach na'r rhaglen waith arfaethedig.**

**(b) Dosbarthu'r adroddiad yn electronig i bob aelod o'r Cyngor sydd ag I-pad, gyda chopïau papur ar gyfer gweddill yr aelodau a chlercod y cynghorau tref a chymuned.**

**(c) Gosod yr adroddiad ar wefan y Cyngor, gyda chopïau papur yn y llyfrgelloedd.**

**(ch) Cynnwys erthygl fer yn Newyddion Gwynedd yn tynnu sylw at y ffaith bod yr adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi.**

**5. ADBORTH O'R GYNHADLEDD SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno adborth o'r Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd yn Llandudno ar 19 Ebrill, 2013 ac yn gwahodd y pwyllgor i gynnig unrhyw sylwadau ar amseriad a threfniadau cynadleddau i'r dyfodol.

Dosbarthwyd copi o ddeunyddiau'r gynhadledd i'r aelodau hynny na fu yn y gynhadledd.

Diolchwyd i'r Swyddog Monitro am ei rhan yn cydlynu a chyd-gordio trefniadau'r gynhadledd.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod y seminarau yn y prynhawn ychydig yn frysiog, ond bod popeth arall yn wych.
- Ei bod yn drueni bod cyn lleied o'r mynychwyr yn dymuno trafod trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ei bod yn bwysig bod y sylwadau a nodwyd ar y ffurflenni adborth yn cael eu cymryd i ystyriaeth pan drefnir cynadleddau yn y dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro fod holl swyddogion monitro Cymru yn derbyn copi o'r sylwadau fel eu bod ar gael i bwy bynnag fydd yn trefnu cynadleddau yn y dyfodol. Nododd hefyd fod yna fwriad i baratoi canllaw byr ar gyfer trefnwyr.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6. RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno rhaglen waith ddrafft am 2013/14 ac yn gofyn am gymeradwyaeth y pwyllgor iddi.

Trafodwyd yr egwyddor o fynd i arsylwi ar gyfarfodydd cynghorau tref a chymuned ynghyd â natur yr ymweliadau hynny. Eglurwyd bod gwahaniaeth rhwng mynychu er mwyn i aelod(au) unigol ddysgu o'r profiad a mynychu yn ffurfiol er mwyn dylanwadu ar ymddygiad.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cytuno ar y rhaglen waith a ganlyn:-**

**<u>30 Medi 2013</u>**

- **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cyfarfod Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol**
- **Protocol Cyfryngau Cymdeithasol**
- **Hyfforddiant**

**<u>27 Ionawr, 2014</u>**

- **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch (gan gynnwys rhai cynghorau cymuned)**
- **Cofrestr buddiannau aelodau etholedig (gan gynnwys rhai cynghorau cymuned)**
- **Trefn datrys anghydfod a Safon Gwynedd**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

<u>**7 Ebrill, 2014**</u>

- **Cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
- **Trefn ceisiadau am oddefebau**
- **Hunan asesiad o waith y pwyllgor**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Rhaglen waith y pwyllgor**

**(b) Na ddylid ymweld â chyfarfodydd cynghorau tref a chymuned yn ffurfiol ar y funud, ond rhydd i unrhyw aelodau fynd yno fel unigolion er mwyn addysgu eu hunain.**

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2013.

Llongyfarchwyd Cadeirydd y pwyllgor hwn ar gael ei benodi'n Is-gadeirydd y Fforwm.

Sylwyd bod cofnodion y Fforwm yn mynd yn deneuach a chytunwyd â'r sylw ynddynt bod angen trafod amlder y cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion.**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2012/13**

Cyflwynwyd er gwybodaeth - adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon 2012/13 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.25pm.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **30 Medi 2013** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 201300346

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau

### 2.2 Achos 3982/201301430

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir yn caniatáu sylwadau sarhaus ac enllibus ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Ystyried os yw am ymchwilio.

**2.3 Achos 201301307**

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau.

**2.4 Achos 201301629**

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant mewn eitem oedd gerbron cyfarfod o’r cyngor.

**Penderfyniad**

Ystyried os yw am ymchwilio.

**2.5 Achos 4414/201301916**

**Cwyn**

Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio ar sail materion a ddaeth ar eu traws wrth ymchwilio i gŵyn arall yn erbyn cynghorydd a allai fod yn torri’r cod (para 2.1 uchod):

- Dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd neu ar yr awdurdod
- Gwrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a’i rôl fel cynghorydd a cham ddefnydd o’i rôl fel cynghorydd
- Mynychu cyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro lle gallai bod sefyllfa o wrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a’i rôl fel cynghorydd

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau.

**2.6 Achos 4534/201302665 & 4534/201302666**

**Cwyn**

Cwynion yn erbyn cynghorydd sir, gan ddau gyd-aelod, ei fod wedi rhoi negeseuon ar ei dudalen Facebook mewn cysylltiad â'u hawliadau am dreuliau teithio, gyda'r bwriad o'u difrïo.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Roedd wedi cyhoeddi rhestr o dreuliau nifer o aelodau ond nid oedd y neges yn cyfeirio yn benodol at y ddau aelod. Enwyd nhw gan ddau aelod o'r cyhoedd oedd wedi ychwanegu sylwadau i'r dudalen, ond ni ellid dal y cynghorydd yn gyfrifol am y rhain ac nid oedd o'r farn y gallai fod wedi rhagweld yr ymateb.

## 3. Achosion fu gerbron y Pwyllgor Safonau

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gŵyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012. Mae'r Cynghorydd wedi apelio i Banel Dyfarnu Cymru a disgwylir dyddiad ar gyfer y gwrandawiad.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **30, MEDI, 2013.** |
| **PWNC** | **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL.** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO CANLLAWIAU CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL I GYNGHORWYR.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

**1. CYFLWYNIAD.**

1.1 Mae chwyldro'n digwydd yn y ffordd rydym yn cyfathrebu. Rydym nawr yn gweld y newid mwyaf erioed yn y modd y mae gwybodaeth yn cael ei greu a'i feddiannu, yn ogystal â chyflymder gallu rhannu gwybodaeth. Arwain hyn at newid yn y modd yr ydym yn byw, yn gweithio, ac o bosib yn y modd yr ydym yn siarad ac yn meddwl.

1.2 Defnyddir y term hollgynhwysol cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio at amrediad o ddulliau aml-gyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd. Mae modd eu cyrchu drwy ffôn smart, cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu dabledi smart.

**2. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL : CANLLAW I GYNGHORWYR.**

2.1 Ar 16, Awst, 2013, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddogfen Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i gynghorwyr ar eu gwefan. Gellir cael mynediad at y ddogfen yn : http://www.wlga.gov.uk/cyfryngau-cymdeithasolcanllawiau-i-gynghorwyr.

2.2 Bwriad y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i gynghorwyr sydd yn awyddus i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel dull o rannu gwybodaeth, agor trafodaethau newydd â phobl yn eu cymuned a thu hwnt ac ennyn diddordeb eu hetholaeth mewn sgwrs ddwy ffordd gynhyrchiol. Mae'r canllaw yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfryngau cymdeithasol *Facebook* a *Twitter.*

2.3 Yn y canllaw, rhestrir nifer o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr, megis bod:

- nifer cynyddol o bobl yn defnyddio *Twitter* a *Facebook* fel y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt, gan arwain at botensial i sefydlu cyfathrebu dwyffordd â phob un ohonynt;
- yn ddull defnyddiol o ddysgu beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, eu pryderon a'u diddordebau;
- yn ffordd dda o sicrhau bod etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith a wneir gan gynghorwyr;

- yn gyfrwng i gael sgwrs gydag amrediad o bobl na fyddai modd cwrdd â hwy'n gorfforol ac nad ydyn nhw'n draddodiadol yn mynd i gwrdd â'u cynrychiolwyr lleol;
- yn ddull o gyfathrebu ar fyrder, gan allu cael adborth ar unwaith am syniadau a maniffesto er mwyn gallu addasu'r cynigion yn unol â'r farn leol.

**3. RHAI YSTYRIAETHAU.**

3.1 Wrth ystyried cynnwys y ddogfen *Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr* (CLlLC), dylid nodi fod ynddi faterion sy'n berthnasol i faes gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd e.e.

- y defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn pwyllgorau, a'r hyn ddywed y Cyfansoddiad.
- y Gymraeg, a'r arweiniad a roddir gan Gynllun Iaith y Cyngor;
- hyfforddiant o safbwynt hwyluso cynghorwyr i
  - gychwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol
  - i wneud defnydd helaethach o gyfryngau cymdeithasol;
- y defnydd llwyddiannus a wneir eisoes o gyfryngau cymdeithasol gan rai aelodau etholedig yng Ngwynedd fel arfer dda

a materion sy'n berthnasol i faes gwaith y Pwyllgor Safonau, e.e.

- y côd ymddygiad a goblygiadau cyfreithiol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- camau a ddilynir mewn achosion o gamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

3.2 Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ymysg cynghorwyr yn faes sydd wedi ei adnabod gan y Pwyllgor hwn fel pwnc sydd angen sylw pellach yn sgil nifer y cwynion a gyflwynir i'r Ombwdsmon yn deillio o gamddefnydd o'r cyfryngau.

3.3 Ar sail yr ystyriaethau cychwynnol hyn, credir y dylid rhoddi ystyriaeth fanylach i'r uchod a chynnwys *Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i gynghorwyr* (CLlLC) gan eu haddasu yn benodol i Wynedd a/neu lunio protocol penodol ar gyfer y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr. Credir bod hyn yn waith y byddai'n briodol i'w gyflawni ar y cyd rhwng y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Safonau.

3.4 Cyfarfu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y 10, Medi, 2013 i ystyried adroddiad ar y pwnc hwn pan fu iddynt benderfynu ethol tri aelod i gyfrannu at waith is-grŵp ar y cyd hefo'r Pwyllgor Safonau i ddatblygu canllawiau cyfryngau cymdeithasol i Wynedd.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Safonau yn :-

(a) argymell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol;

(b) sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer Gwynedd (gyda'r union broses ar gyfer cyflawni hynny i'w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor);

(c) enwebu tri aelod o'r pwyllgor i wasanaethu ar yr is-grŵp.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **30, MEDI, 2013.** |
| **PWNC** | **HYFFORDDIANT** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO ADRODDIAD AR YR HYFFORDDIANT SYDD WEDI EI GYFLWYNO AR Y CÔD YMDDYGIAD AC AR DREFNIADAU HYFFORDDI AM Y FLWYDDYN I DDOD.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Ionawr, 2011 penderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn :

"*(a) Rhoi blaenoriaeth i ddarparu hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i'r 11 cynghorydd sir oedd heb fynychu'r hyfforddiant a gynigiwyd fel rhan o'r drefn gyflwyno yn dilyn etholiadau mis Mai, 2012.*
*(b) Cynnig sesiwn adnewyddu yn flynyddol i'r holl gynghorwyr sir, gan edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu'r hyfforddiant, e.e. pwyllgorau ardal;*
*(c) Cynnig sesiynau penodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned gan fonitro sut mae'r hyfforddiant gydag Unllais Cymru yn symud yn ei flaen;*
*(ch) Cynnig sesiwn wedi ei theilwrio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau;*
*(d) Bod angen ystyried dulliau gwahanol a mwy arloesol o gyflwyno hyfforddiant yn gyffredinol;*
*(dd) Gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gynnwys amod yn y côd bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.*"

2. Fel rhan o'i raglen waith mae'r Pwyllgor wedi cytuno i dderbyn adroddiad blynyddol ar yr hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno ar y Côd Ymddygiad a materion safonau eraill ynghyd â'r trefniadau sydd ar y gweill am y flwyddyn i ddod. Dyna yw pwrpas yr adroddiad hwn.

3. Adroddaf yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor ym mis Ionawr :

   (a) Blaenoriaeth i ddarparu hyfforddiant i'r 11 cynghorydd sir oedd heb fynychu'r hyfforddiant cyflwyno ym mis Mai 2012. Cynhaliwyd sesiwn ar faterion priodoldeb oedd yn canolbwyntio ar egwyddorion y Côd Ymddygiad ar y 3, Gorffennaf, 2013.
   Mynychodd 31 o aelodau'r Cyngor gan gynnwys dau aelod newydd oedd heb dderbyn hyfforddiant ffurfiol ar y Côd Ymddygiad o'r blaen. 'Rwyf wedi cael trafodaeth unigol ar gynnwys y Côd Ymddygiad gydag un aelod newydd arall. Golyga hyn fod pob aelod bellach wedi derbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad er bod y dyddiad y derbyniodd pedwar ohonynt yr hyfforddiant yn mynd yn ôl i dymor y Cyngor diwethaf (2008-2012).

(b) Cynnig sesiwn adnewyddu yn flynyddol i'r holl gynghorwyr sir. Gan fod y sesiwn olaf wedi ei chynnal ym mis Gorffennaf eleni, byddaf yn rhaglennu'r hyfforddiant adnewyddu nesaf ar gyfer haf 2014.

(c) Cynnig sesiynau penodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned. Bum mewn cysylltiad gyda Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas, rwyf wedi trefnu sesiynau penodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned at ddechrau mis Hydref. Yn ogystal â materion y Côd Ymddygiad bydd yn sesiynau yn cynnwys materion yn ymwneud â'r gofrestr buddiannau, y protocol a chofrestr rhoddion a lletygarwch, y drefn ar gyfer goddefebau a materion cyfrinachedd a chau allan y wasg a'r cyhoedd. Mae'r gwahoddiadau wedi eu hanfon allan gan Katherine Owen, Clerc Cyngor Tref Caernarfon ar ran y Gymdeithas Clercoed Cynghorau Lleol. Byddaf yn adrodd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar y nifer sydd wedi cofrestru i fynychu.

(ch) Cynnig sesiwn wedi ei theilwrio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. Aeth pump aelod o'r Pwyllgor i'r Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan a gynhaliwyd yn Llandudno ar y 19, Ebrill, 2013. Ar wahân i hyn nid oes unrhyw sesiwn benodol wedi ei threfnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor, ond fe gafwyd cyflwyniad i waith y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf yng Ngorffennaf 2012. Rwy'n argymell fod cyfnod, o ddyweder, awr ar gychwyn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygu'r Pwyllgor, a gofynnir am awgrymiadau ar y math o sesiwn y byddai'r aelodau yn dymuno ei chael.

(d) Angen ystyried dulliau gwahanol o gyflwyno hyfforddiant. Gwnaed ymdrech yn yr hyfforddiant mis Gorffennaf eleni i gyflwyno sesiwn mwy rhyngweithiol a hwyliog na chyflwyniad arferol. Cafwyd ymateb da gan yr aelodau. Yr ydym yn y gorffennol wedi defnyddio deunydd a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd yn cynnwys fideo a chyflwyniadau power point, ac wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno'r hyfforddiant dros y we. Serch hynny, nid yw adnoddau ac amser wedi caniatau datblygu hyfforddiant o'r fath yn benodol i Wynedd, ac nid yw'n ymddangos bod awydd i'w ddatblygu yn genedlaethol. O fewn y Cyngor, mae sesiynau byr fel cymorthfeydd gyda hyd at hanner dwsin o aelodau ar y tro wedi profi yn llwyddiannus i egluro meysydd gweddol gymhleth a chyda cydsyniad y Pwyllgor rwy'n ystyried arbrofi gyda'r dull hwn o ddatblygu aelodau ar gyfer y sesiynau adnewyddu nesaf.

(dd) Gofyn i'r Gweinidog gynnwys amod bod rhaid i bob cynghorydd dderbyn hyfforddiant. Fe roddwyd hyn yn ymateb y Cyngor i'r Gweinidog ond nid yw'n ymddangos ei fod wedi ei weithredu, a bod hyfforddi aelodau ar y Côd Ymddygiad yn parhau i ddibynnu ar barodrwydd yr aelodau i fynychu'r hyfforddiant ac ar anogaeth gref iddynt wneud hynny.

**ARGYMHELLIAD.**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor

(a) dderbyn yr adroddiad ar yr hyfforddiant sydd wedi ei ddarparu ac ar gynlluniau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

(b) ddatgan barn ynglŷn â sesiwn hyfforddiant penodol ar gychwyn y cyfarfod nesaf mis Ionawr.